WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 262A2014



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins a Jackie Joyce o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Yn 2012-13, gwnaeth y Cyngor gynnydd cymysg o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth ond erys heriau allweddol 8

Cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant o dan y Mesur yn ystod 2012-13, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a fydd ei drefniadau newydd yn gwella ei allu i wella gwasanaethau a gwerthuso eu perfformiad 21

Yn 2013-14, cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur, ac mae'n cymryd rhan mewn nifer fawr o brosiectau cydweithredol ond cyfyngedig fu'r cynnydd a wnaed ganddo wrth wella ei drefniadau rheoli gwybodaeth 24

Nid yw'n sicr p'un a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 33

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 34

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Flaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 35

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 37

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 40

# Adroddiad cryno ac argymhellion

## Crynodeb

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) mewn perthynas â 2012-13, a'i drefniadau i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14. Gan ystyried hyn, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Canfu'r tîm archwilio, yn 2012-13, fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd cymysg o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth ond erys heriau allweddol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Gwnaeth y Cyngor rywfaint o gynnydd wrth gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 ond mae perfformiad y Cyngor o gymharu â gweddill Cymru yn gymysg.
- Parhaodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i berfformio'n dda yn ystod 2012-13 a dysgwyd rhai gwersi o ystyried integreiddio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Erys Gwasanaethau Addysg yn anfoddhaol o hyd.
- Dengys dadansoddiad o wybodaeth arall am berfformiad ddarlun cymysg o welliant.

3 Cafwyd gennym hefyd fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant o dan y Mesur yn ystod 2012-13, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a fydd ei drefniadau newydd yn gwella ei allu i wella gwasanaethau a gwerthuso eu perfformiad. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Er bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant o dan y Mesur ar gyfer 2012-13, mae lle i atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach.
- Gyda chymorth Cynghorwyr Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn datblygu nifer o drefniadau corfforaethol ymhellach ond mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a fyddant yn gwella gallu'r Cyngor i werthuso a gwella gwasanaethau.
- Ceir rhai gwendidau o ran cywirdeb y data a gofnodir.
- Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau ond mae'n rhaid iddo weithredu ar unwaith er mwyn sicrhau cyllideb gyfreithlon a mantoledig ar gyfer 2014-15.

4 Yn olaf, cafwyd gennym, yn ystod 2013-14, fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur, a'i fod yn cymryd rhan mewn nifer fawr o brosiectau cydweithredol ond cyfyngedig fu'r cynnydd a wnaed ganddo wrth wella ei drefniadau rheoli gwybodaeth. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Yn 2013-14, cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ond dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Er bod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, ni fu'n ddigon cyflym na chadarn ac roedd yn annhebygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2013-14.
- Mae'r Aelodau yn dangos awydd am drefniadau effeithiol o ran craffu a gwneud penderfyniadau.
- Mae trefniadau'r Cyngor i baratoi ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn gymharol gadarn ond ceir rhai meysydd lle y gellid gwella'r trefniadau hyn.
- Cyfyngedig iawn fu cynnydd y Cyngor wrth roi ein cynigion i wella ei drefniadau rheoli gwybodaeth ar waith ac ni fanteisiodd yn llawn ar y trefniadau cydweithredu â Chyngor Merthyr, a lesteiriwyd gan lywodraethu gwael.
- Cymerodd y Cyngor ran mewn nifer fawr o brosiectau cydweithredol ac, yn gyffredinol, cafwyd gennym y gellid cynllunio a rheoli prosiectau cydweithredol yn well a bod diffyg gwybodaeth am gostau a buddiannau yn golygu ei bod yn anodd asesu gwerth am arian.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ymdrin â'r diffygion a ragwelwyd yn ei gyllideb yn 2013-14 a 2014-15, ond mae'n hanfodol bod y Cyngor bellach yn cyflawni'r arbedion hyn ac yn parhau i ddatblygu ei gynlluniau arbed ar gyfer 2015-16 a thu hwnt er mwyn iddo barhau'n ariannol gynaliadwy.

5 Gan ystyried yr uchod, nid yw'n sicr p'un a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

## Argymhellion

6 Fel rhan o'n gwaith yn 2013-14, gwnaethom nifer o argymhellion statudol. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor amdanynt eisoes yn y Llythyr Asesiad Gwella dyddiedig Hydref 2013 ac fe'u nodir isod er gwybodaeth. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion fel rhan o'n rhaglen waith yn y dyfodol.

7 Yn ogystal, argymhellodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y dylai'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ddefnyddio ei phwerau o dan Adran 28 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i roi cymorth i'r Cyngor. Nid oedd o'r farn bod gan y Cyngor y capasiti i nodi'r camau gweithredu roedd eu hangen i ymdrin â'i anawsterau ariannol difrifol a'u rhoi ar waith. Roedd angen darparu cymorth allanol â sgiliau a phrofiad addas er mwyn galluogi'r Cyngor i gymryd y camau gweithredu cyflym a sylweddol angenrheidiol.

8 Penderfynodd yr Archwilydd Penodedig, gan ddefnyddio'r pwerau a oedd ar gael iddo, wneud Argymhelliad Statudol i'r Cyngor o dan adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn Llythyr Archwilio Blynyddol 2013 dyddiedig Hydref 2013.

| | |
|---|---|
| A1 | Ymdrin â gwendidau mewn prosesau cynllunio ariannol drwy wella ansawdd adroddiadau i aelodau ar gynigion ar gyfer arbedion cyllidebol drwy nodi'r canlynol yn glir:<br>• effaith ddisgwyliedig penderfyniadau;<br>• yr amserlen weithredu;<br>• faint o arbedion a gyflawnir ac erbyn pryd;<br>• pwy sy'n atebol am gyflawni arbedion; a<br>• sut y caiff y gwaith o gyflawni arbedion ei fonitro. |
| A2 | Atgyfnerthu'r broses o graffu ar benderfyniadau drwy wneud y canlynol:<br>• ymdrin â diffygion yn ansawdd adroddiadau i bwyllgorau craffu;<br>• sicrhau bod swyddogion yn cael hyfforddiant priodol ar rôl craffu a chyflwyno gwybodaeth i aelodau; a<br>• sicrhau bod y swyddogion cywir yn mynychu pwyllgorau craffu i gyflwyno adroddiadau ac ateb cwestiynau aelodau. |
| Argymhelliad yr Archwilydd Penodedig | |
| A1 | Mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu ar unwaith i nodi a chymeradwyo'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau cyllideb gyfreithlon a mantoledig ar gyfer 2014-15, a chytuno ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gynaliadwy a fydd yn galluogi'r Cyngor i weithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo. Wrth lunio cynlluniau cadarn ar gyfer trawsffurfio a newid gwasanaethau, ac wrth lunio barn hyddysg ar sut i gynllunio a darparu ei wasanaethau yn y dyfodol, mae'n rhaid i'r Cyngor asesu'r effaith a gaiff ei benderfyniadau ar ddinasyddion Blaenau Gwent. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

9 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gwnaed y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, noda'r adroddiad gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

10 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

11 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

12 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Yn 2012-13, gwnaeth y Cyngor gynnydd cymysg o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth ond erys heriau allweddol

13 Dengys dadansoddiad o'r 44 o ddangosyddion strategol cenedlaethol a mesurau atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer 2012-13[1]:

- o'r 36 o fesurau y gellir eu cymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd 23 (64 y cant) wedi gwella; ac
- o'r 44 o fesurau, perfformiodd 24 (55 y cant) yn well na chyfartaledd Cymru.

### Gwnaeth y Cyngor rywfaint o gynnydd wrth gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 ond mae perfformiad y Cyngor o gymharu â gweddill Cymru yn gymysg

14 Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Gwella[2], a nododd ei dri chanlyniad lefel uchel ar gyfer y cyfnod pum mlynedd yn ogystal â 10 amcan gwella penodol (gweler Atodiad 4).

15 Isod ceir trosolwg cryno o ba mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio wrth gyflawni gwelliant yn erbyn y blaenoriaethau hyn. Ceir gwybodaeth fanylach am gynnydd a chyflawniadau yng *Nghynllun Gwella Corfforaethol 2013/14* sydd ar gael ar wefan y Cyngor[3].

16 Nododd y Cyngor dri amcan gwella penodol mewn perthynas â'i ganlyniad lefel uchel *Sicrhau'r lefelau dysgu a chyflawni uchaf posibl ar gyfer plant a phobl ifanc*:

- mae plant y mae angen gofal arnynt yn cael y gofal hwnnw gan ofalwyr maeth lleol sy'n gallu rhoi lleoliadau sefydlog;
- cyflwyno ymyriadau ym mlwyddyn 11 sy'n helpu i leihau'r lefelau a gofnodir o bobl nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET); a
- gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion ym mhob ysgol ym Mlaenau Gwent.

17 Cydnabu'r Cyngor nad yw'r amcanion gwella mewn perthynas ag addysg wedi'u cyflawni'n llawn eto gan eu bod yn feysydd mawr i'w gwella y mae  angen gweithio arnynt ac a fydd yn cymryd amser i ymsefydlu.

18 Nododd y Cyngor nifer o gamau gweithredu a fyddai'n helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a defnyddiodd hefyd fesurau perfformiad, gan gynnwys y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, i asesu perfformiad. Ymhlith y camau gweithredu roedd: datblygu dull gweithredu cyson i fynd i'r afael â lefelau presenoldeb gwael gan ddefnyddio Canllawiau Cymru ar Bresenoldeb ynghyd â rhoi Dull Gweithredu Pum Cam yr Awdurdod mewn perthynas â phresenoldeb ar waith; parhau i weithredu ei Brosiect Atal 14-19; a datblygu Adnodd Nodi Cynnar.

19 Mae'r Cyngor yn datgan bod yr holl gamau gweithredu mewn perthynas â gwella presenoldeb disgyblion wedi'u cwblhau a bod y cam gweithredu mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn mynd rhagddo'n dda. Er y gwnaed cynnydd o ran lleoliadau sefydlog, erys gwella sefydlogrwydd a chynyddu nifer y gofalwyr maeth yn flaenoriaeth allweddol.

1 StatsCymru a'r Uned Ddata Llywodraeth Leol, Canolfan Feincnodi
2 *Cynllun Gwella Corfforaethol 2012-17*
3 www.blaenau-gwent.gov.uk/council/166.asp

20 Drwy ddadansoddi mesurau perfformiad allweddol, gwelir bod perfformiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol wedi gwella ond roedd y darlun yn fwy cymysg o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru:

- Gwellodd canran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal o 14.1 y cant yn 2011-12 i 12.3 y cant yn 2012-13, sy'n well na chyfartaledd Cymru, sef 13.7 y cant. Roedd perfformiad y Cyngor yn 2011-12 yn golygu ei fod yn yr 16eg safle allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, ac yn 2012-13, roedd yn y nawfed safle.

- Gwellodd canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn o 14.6 y cant yn 2011-12 i 12.5 y cant yn 2012-13, sy'n waeth na chyfartaledd Cymru, sef 9.4 y cant. Yn 2011-12 ac yn 2012-13, roedd perfformiad y Cyngor yn golygu ei fod yn y 18fed safle.

- Roedd cynllun gofal ar waith o'r dechrau yn achos 100 y cant o leoliadau cyntaf plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn yn 2011-12 ac yn 2012-13, sy'n well na chyfartaledd Cymru, sef 89.1 y cant yn 2012-13. Perfformiad y Cyngor oedd y gorau o'r 22 o gynghorau yng Nghymru yn 2011-12 ac yn 2012-13.

- Roedd 0.6 y cant o'r holl ddisgyblion (gan gynnwys y rheini o dan ofal yr awdurdod lleol) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, wedi gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy yn 2011-12 a 2012-13, sy'n waeth na chyfartaledd Cymru, sef 0.4 y cant yn 2012-13. Rhagorodd y Cyngor ar ei darged ei hun, sef 1.25 y cant, yn 2012-13. Roedd perfformiad y Cyngor yn 2011-12 yn golygu ei fod yn yr 17eg safle allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, ac yn 2012-13, roedd yn y 18fed safle.

- Canran yr holl ddisgyblion o dan ofal yr awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a oed yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy. Yn 2011-12 ac yn 2012-13, nid adawodd unrhyw ddisgyblion heb gymhwyster priodol, ac mae hyn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 5.7. Perfformiad y Cyngor oedd y gorau o'r 22 o gynghorau yng Nghymru yn 2011-12 ac yn 2012-13.

- Arhosodd canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd yn gymharol sefydlog rhwng 2011-12, pan oedd yn 93 y cant, a 2012-13, pan oedd yn 93.4 y cant. Rhagorodd y Cyngor ar ei darged ei hun, sef 92.5 y cant, yn 2012-13. Cyfartaledd Cymru yn 2012-13 oedd 93.9 y cant. Roedd perfformiad y Cyngor yn 2011-12 yn golygu ei fod yn y 15fed safle allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, ac yn 2012-13, roedd yn yr 16eg safle.

- Gwellodd canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd o 89.5 yn 2011-12 i 90.5 y cant yn 2012-13. Ni chyflawnodd y Cyngor ei darged ei hun, sef 90.7 y cant, yn 2012-13. Cyfartaledd Cymru yn 2012-13 oedd 92.1 y cant. Perfformiad y Cyngor oedd y gwaethaf yng Nghymru yn 2011-12 ac yn 2012-13.

21 Nododd y Cyngor dri amcan gwella penodol mewn perthynas â'i ganlyniad lefel uchel *Galluogi pobl a chymunedau i'w helpu eu hunain*:

- caiff y bobl hynny sy'n agored i niwed ac y mae angen cymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol arnynt eu galluogi i fyw bywydau annibynnol a bodlon, ac aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl;
- cynyddu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth i ddinasyddion Blaenau Gwent drwy roi cymorth uniongyrchol i fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes; a
- gwella'r ffordd rydym yn cydweithio â chwsmeriaid a gwasanaethau i ddatblygu sianelau mynediad (at wasanaethau'r Cyngor).

22 Er y bu cryn gynnydd yn erbyn yr Amcan Gwella hwn, cydnabu'r Cyngor fod llawer o waith i'w wneud o hyd, yn arbennig mewn perthynas â chyflogaeth a diwygio lles. Nid yw'r Amcanion Gwella wedi'u cyflawni'n llawn eto gan eu bod yn feysydd mawr i'w gwella y mae angen gweithio arnynt ac a fydd yn cymryd amser i ymsefydlu.

23 Nododd y Cyngor nifer o gamau gweithredu a fyddai'n helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a defnyddiodd hefyd fesurau perfformiad, gan gynnwys y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, i asesu perfformiad. Ymhlith y camau gweithredu roedd: rhoi cymorth i 15 o fusnesau newydd drwy'r Grant Kick Start, y Gronfa Fuddsoddi Leol a'r Grant Datblygu Menter Cymunedol; darparu unedau tai fforddiadwy; cynyddu nifer yr eiddo yn y Cynllun Gosod Tai Cymdeithasol; ac adolygu'r Strategaeth Byw'n Annibynnol.

24 Dengys dadansoddiad o fesurau perfformiad allweddol ddarlun cymysg o berfformiad:

- Gwaethygodd cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol (fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd) o 1.2 yn 2011-12 i 4.7 yn 2012-13, a oedd yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef 4.57. Roedd perfformiad y Cyngor yn 2011-12 yn golygu ei fod yn y pedwerydd safle allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, ac yn 2012-13, roedd yn y 14eg safle. Roedd gennym amheuon ynglŷn â chadernid y data cenedlaethol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y DSC hwn a gwnaethom benderfynu'n unfrydol i amodi'r dangosydd hwn ar gyfer 2012-13.
- Gwaethygodd cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu drosodd) a gafodd gymorth yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth o 140.7 yn 2011-12 i 133.34 yn 2012-13, a oedd yn well na chyfartaledd Cymru, sef 77.53. Perfformiad y Cyngor yn 2011-12 ac yn 2012-13 oedd y gorau ond un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru.

- Gwellodd cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn darparu lleoedd mewn cartrefi gofal ar eu cyfer fesul 1,000 o'r boblogaeth o 24.3 yn 2011-12 i 23.33 yn 2012-13, a oedd yn well na chyfartaledd Cymru, sef 20.63. Roedd perfformiad y Cyngor yn 2011-12 yn golygu ei fod yn y 19eg safle allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, ac yn 2012-13, roedd yn y 18fed safle.

- Gwellodd canran yr adolygiadau o gynlluniau gofal a gwblhawyd mewn pryd o 73.6 y cant yn 2011-12 i 77.5 y cant yn 2012-13, sy'n waeth na chyfartaledd Cymru, sef 80.9 y cant. Roedd perfformiad y Cyngor yn 2011-12 yn golygu ei fod yn yr 17eg safle allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, ac yn 2012-13, roedd yn yr 16eg safle.

- Roedd canran yr oedolion a gafodd gymorth yn y gymuned yn 87.5 y cant yn 2011-12 ac 87.8 y cant yn 2012-13, a rhagorodd y Cyngor ar ei darged ei hun, sef 87 y cant. Roedd perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru, sef 86.16 y cant. Yn 2011-12 ac yn 2012-13, roedd perfformiad y Cyngor yn golygu ei fod yn yr wythfed safle allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru.

- Gwellodd canran yr holl deuluoedd a allai fod yn ddigartref, lle ataliwyd hynny am o leiaf chwe mis, o sero yn 2011-12 i 1.2 y cant yn 2012-13, sy'n waeth na chyfartaledd Cymru, sef 62.6 y cant, ac ni lwyddodd y Cyngor i gyrraedd ei darged ei hun, sef 25 y cant. Perfformiad y Cyngor oedd y gwaethaf yng Nghymru yn 2011-12 ac yn 2012-13.

- Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn oedd 77 yn 2012-13, a ragorodd ar darged y Cyngor ei hun, sef 30, ac a oedd yn well na chyfartaledd Cymru, sef 45. Perfformiad y Cyngor yn 2012-13 oedd y perfformiad gorau ond dau o'r 22 o gynghorau yng Nghymru.

- Dychwelodd 80 o unigolion arolygon i'r Cyngor ac roedd tua 70.73 y cant o'r ymatebion yn nodi bod lefel gyffredinol y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn. Ni chyflawnodd y Cyngor ei darged ei hun yn 2012-13, sef 80 y cant.

25 Er y dylid ystyried perfformiad yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, dengys perfformiad yn erbyn data cymharol cenedlaethol eraill ddarlun cymysg o berfformiad. Er enghraifft:

- Cynyddodd canran y bobl a oedd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn yr ardal o 7.7 y cant ym mis Ebrill 2012 i 7.8 y cant ym mis Ebrill 2013. Gostyngodd cyfartaledd Cymru ychydig o 4.2 y cant i 4.1 y cant, a gostyngodd cyfartaledd y DU o 3.9 y cant i 3.7 y cant yn ystod yr un cyfnod. Dengys y ffigur ar gyfer mis Chwefror 2014 fod nifer yr hawlwyr wedi gwella i chwech y cant, sy'n parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 3.5 y cant, a chyfartaledd y DU, sef tri y cant.

- Cafwyd cynnydd bach yn nifer y bobl mewn cyflogaeth o 30,400 yn 2011-12 i 30,500 yn 2012-13. Y gyfradd gyflogaeth yn 2012-13 oedd 70.2 y cant, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 73.8 y cant ac

sydd hefyd yn is na chyfartaledd Prydain Fawr, sef 77.1 y cant.

- Mae *Mynegai Cystadleurwydd y DU*[4] yn fesur da i farnu pa mor dda y mae cynghorau, rhanbarthau a gwledydd yn y DU yn perfformio wrth ddenu buddsoddiad newydd o'r sector preifat yn ogystal â helpu busnesau sy'n bodoli eisoes i ffynnu. Mae Mynegai Cystadleurwydd y DU 2013, sef y mynegai diweddaraf a gyhoeddwyd, yn datgan mai'r ardal lleiaf cystadleuol ym Mhrydain yw Blaenau Gwent yng nghymoedd De Cymru, lle mae lefelau cystadleurwydd wedi parhau i ostwng, ac roedd yn un o bedair ardal yng Nghymru a oedd yn y deg safle isaf. Yn 2010, roedd Blaenau Gwent yn y 379fed safle ac arhosodd yn yr un safle yn 2013 hefyd.

26 Nododd y Cyngor bedwar amcan gwella penodol mewn perthynas â'i ganlyniad lefel uchel *Mae'r amgylchedd byw yn llewyrchus ac yn atyniadol*:

- cynnal a gwella'r rhwydwaith priffyrdd er mwyn cyfrannu at seilwaith trafnidiaeth diogel ac effeithiol;
- cynnig amgylchedd glân a dymunol i'w fwynhau ac ymfalchïo ynddo drwy wrando ar ein dinasyddion a'n hymwelwyr a hyrwyddo'r hyn a wnawn;
- mae Canol Trefi yn fwy llewyrchus, atyniadol a hyfyw o ganlyniad i waith adfywio ffisegol a rheoli canol trefi sydd o fudd i siopwyr a busnesau; a
- chan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn dod yn gymdeithas sy'n ailgylchu llawer ac yn gwastraffu fawr ddim.

27 Mae'r Cyngor yn datgan fod y canlyniad hwn, ar y cyfan, yn dangos arwyddion o gynnydd gyda'r cynnydd mwyaf yng Nghymru mewn lefelau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff, mae glendid priffyrdd yn y chwartel perfformiad uchaf ac mae ffyrdd A, B ac C a oedd mewn cyflwr cyffredinol wael oll wedi gwella. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cynnydd wedi bod yn nifer yr eiddo gwag mewn canol trefi a gwnaed cais am gyllid allanol i wella canol trefi Abertyleri, Glynebwy a Thredegar. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyd yn hyn nad yw llawer o'r amcanion gwella wedi ymsefydlu'n llawn nac wedi'u cyflawni gan eu bod yn feysydd mawr i'w gwella y mae angen gweithio arnynt ac a fydd yn cymryd amser i ymsefydlu.

28 Nododd y Cyngor nifer o gamau gweithredu a fyddai'n helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a defnyddiodd hefyd fesurau perfformiad, gan gynnwys y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, i asesu perfformiad. Ymhlith y camau gweithredu roedd: sicrhau gwelliannau amgylcheddol yn Ebwy Fawr; cynyddu nifer y trigolion sy'n cymryd rhan yn y gwasanaeth Gwastraff Bwyd; creu gwefan Street Scene er mwyn canfod barn trigolion; gosod biniau cŵn a biniau sbwriel mewn ymateb i geisiadau gan y cyhoedd; rhoi ail flwyddyn y rhaglen gwella priffyrdd ar waith; a dechrau gweithredu cynlluniau adfywio canol trefi.

4 Cyflwynwyd a chyhoeddwyd *Mynegai Cystadleurwydd y DU* (UKCI) gyntaf yn 2000 gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Mae'n darparu meincnod o gystadleurwydd rhanbarthau ac ardaloedd y DU. Cynlluniwyd *Mynegai Cystadleurwydd y DU* fel ffordd integredig o fesur cystadleurwydd gan ganolbwyntio ar ddatblygiad a chynaliadwyedd busnesau a lles economaidd unigolion.

29 Dengys dadansoddiad o fesurau perfformiad allweddol ddarlun cymysg o berfformiad:

- Roedd 11.6 y cant o brif ffyrdd (A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) mewn cyflwr cyffredinol wael yn 2011-12 a 2012-13. Roedd perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru, sef 13.4 y cant yn 2012-13 a rhagorodd y Cyngor ar ei darged ei hun, sef 12 y cant. Roedd perfformiad y Cyngor yn 2011-12 yn golygu ei fod yn yr 16eg safle allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru ac yn 2012-13, roedd yn yr 17eg safle.

- Cynyddodd nifer y damweiniau traffig ar y ffordd o 84 yn 2011 i 100 yn 2012 a chafwyd cynnydd yn nifer y bobl a anafwyd o 120 yn 2011 i 146 yn 2012. Bu gostyngiad yn nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol o 17 yn 2011 i 12 yn 2012.

- Gwellodd canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a arolygwyd a oedd yn cyrraedd safon glendid uchel neu dderbyniol o 83.3 y cant yn 2011-12 i 91.7 y cant yn 2012-13, sy'n waeth na chyfartaledd Cymru, sef 95.8 y cant, ac ni lwyddodd y Cyngor i gyrraedd ei darged ei hun, sef 95 y cant. Perfformiad y Cyngor oedd y gwaethaf yng Nghymru yn 2011-12 ac roedd yn yr 20fed safle yn 2012-13.

- Mae gan Lywodraeth Cymru dargedau i awdurdodau lleol gyrraedd targed ailgylchu o 70 y cant erbyn 2024-25 sy'n cyfuno trefniadau ar gyfer paratoi gwastraff i'w ailgylchu, ei ailddefnyddio a'i gompostio. Mae ganddi hefyd dargedau canolradd ar gyfer paratoi gwastraff i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio, sef 52 y cant yn 2012-13, 58 y cant yn 2015-16 a 64 y cant yn 2019-20. Ni chyflawnodd y Cyngor y targed canolradd o 52 y cant yn 2012-13 a defnyddiodd 82 y cant[5] o'i lwfans o dan y Cynllun Lwfans Tirlenwi[6].

- Anfonwyd 40.98 y cant o wastraff trefol i safleoedd tirlenwi yn 2012-13, a oedd yn well na chyfartaledd Cymru, sef 41.03 y cant.

- Cafodd 100 y cant yr achosion o dipio anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt eu clirio o fewn pum diwrnod gwaith yn 2011-12 ac yn 2012-13, a pherfformiad y Cyngor oedd y gorau o gymharu â'r 22 o gynghorau eraill yng Nghymru.

5 Adroddiad ar Gynllun Lwfansau Tirlenwi (CLT) Cymru 2012/13, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awst 2013.

6 Y Cynllun Lwfansau Tirlenwi (LAS) yng Nghymru. Diben y cynllun yw sicrhau y caiff gwastraff trefol bioddiraddadwy ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Gwneir hyn drwy bennu terfynau ar gyfer faint o wastraff trefol bioddiraddadwy y gall awdurdodau lleol yng Nghymru ei anfon i safleoedd tirlenwi.

## Parhaodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i berfformio'n dda yn ystod 2012-13 a dysgwyd rhai gwersi o ystyried integreiddio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

30 Datgelodd ein dadansoddiad o'r pedwar Dangosydd Strategol Cenedlaethol a'r tri Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n berthnasol i Wasanaethau i Oedolion ar gyfer 2012-13 y canlynol:

- gwellodd tri o'r saith (43 y cant) dangosydd perfformiad o gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol;
- perfformiodd pedwar (57 y cant) yn well na chyfartaledd Cymru; a
- gwellodd tri (43 y cant) eu perfformiad cymharol o gymharu â'r 22 o gynghorau eraill yng Nghymru.

31 Datgelodd ein dadansoddiad o'r wyth Dangosydd Strategol Cenedlaethol a'r pump Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n berthnasol i Wasanaethau Plant ar gyfer 2012-13 y canlynol:

- gwellodd chwech o'r 10 (60 y cant) dangosydd perfformiad y gellir eu cymharu â'r flwyddyn flaenorol;
- perfformiodd 10 o'r 13 (77 y cant) yn well na chyfartaledd Cymru; a
- gwellodd pedwar o'r 10 (40 y cant) eu perfformiad cymharol o gymharu â'r 22 o gynghorau eraill yng Nghymru.

32 Dylid nodi hefyd, o blith yr 20 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, mai perfformiad y Cyngor oedd y perfformiad gorau yng Nghymru ar gyfer chwech o'r dangosyddion hynny o gymharu â'r 22 o gynghorau eraill.

33 Cyhoeddodd AGGCC Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2012-13 ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ym Mlaenau Gwent ym mis Hydref 13. Mae'r adroddiad gwerthuso yn nodi'r meysydd allweddol lle y gwnaed cynnydd yn ogystal â meysydd i'w gwella ymhellach. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan AGGCC: www.cssiw.org.uk.

34 Daw'r paragraffau canlynol o'r adroddiad:

- Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent wedi parhau i berfformio'n dda drwy gydol 2012-13. Gwnaed gwaith sylweddol i fwrw ymlaen ag integreiddio gydag adran gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac, er na ddigwyddodd hynny, mae'r ddwy ochr wedi cadw ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth mewn meysydd gwasanaeth penodol. Er na lwyddwyd i integreiddio, cyfrannodd cyfarwyddwyr y ddwy adran gwasanaethau cymdeithasol at adolygiad o weithio ar y cyd a arweiniodd at gyhoeddi'r gwersi allweddol a ddysgwyd ac awgrymiadau cadarnhaol a chyngor i asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth.

- Mae'r cyngor wedi parhau i gynnal a chwilio am ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd a'r trydydd sector.
- Gwasanaethau i Oedolion - Mae'r cyngor wedi adolygu ac wedi adeiladu ar gyflawniadau blaenorol ac mae gwaith wedi ei gynnal i foderneiddio gwasanaethau. Mae hyn wedi cynnwys adolygiad parhaus o ddarpariaeth fewnol, trefniadau comisiynu a chydweithio gydag awdurdodau lleol yn rhanbarth y De-ddwyrain i archwilio a datblygu prosesau llyfnach ar gyfer comisiynu gwasanaethau. Aethpwyd ati i gydweithio ar draws yr awdurdodau rhanbarthol, gyda'r bwrdd iechyd a'r trydydd sector mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys datblygu'r model eiddilwch i bobl hŷn, gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu, a diogelu.
- Gwasanaethau i Blant - Mae ailstrwythuro gwasanaethau i blant wedi cael ei adolygu ac mae'r gwasanaeth wedi parhau i berfformio'n dda. Mae newidiadau ychwanegol wedi eu gwneud mewn ymateb i bolisi'r llywodraeth a'r ymrwymiad i ymagwedd o gydweithio at wasanaethau ar draws y rhanbarth. Bydd monitro effaith hyn yn allweddol i sicrhau safon uchel barhaus o ran perfformiad yn y gwasanaethau i blant.

35 Nododd AGGCC y ddau faes canlynol o arfer da:

- Ymrwymiad parhaus i archwilio meysydd ar gyfer cydweithio gydag ystod eang o bartneriaid, er enghraifft y tîm adnoddau cymunedol o fewn model ehangach Eiddilwch Gwent.
- Rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

36 Nododd AGGCC y risgiau posibl canlynol:

- Pwysau a diffygion cyllidebol sylweddol. Cynnal, cadw a datblygu gwasanaethau mewn amgylchedd sy'n heriol i'r cyngor, yn arbennig o ran gofal cymdeithasol i oedolion.
- Effaith gweithredu trefniadau rhanbarthol newydd ar lefel leol, gan sicrhau llywodraethu a rheolaeth effeithiol.
- Cyfleoedd a risgiau posibl yn deillio o effeithiau newidiadau i'r tîm uwch reolwyr.

37 Nododd AGGCC hefyd y 'gwnaeth y Cyngor gynnydd cadarnhaol yn y meysydd i'w datblygu a nodwyd y llynedd'. Er enghraifft, cynnydd mewn cydweithio ag iechyd ac awdurdodau lleol eraill o fewn y rhanbarth, gwell perfformiad mewn timau rheoli gofal a monitro llwythi achosion yn y gwasanaethau i oedolion, monitro ansawdd mewn gwasanaethau a gomisiynir a chyfradd uwch o dderbyn taliadau uniongyrchol. Mae'r cyngor wedi ymchwilio i'r ffaith nad oes llawer o unigolion yn cael asesiad gofalwyr ac mae angen ystyried y mater ymhellach er mwyn gwella trefniadau'r cyngor i ymgysylltu â gofalwyr.

38 Fel rhan o'n rhaglen reoleiddio ar gyfer 2013-14, byddwn yn cynnal adolygiad i asesu cynaliadwyedd gwasanaethau cymdeithasol ledled Gwent. Cynhelir yr adolygiad hwn ar y cyd ag AGGCC.

## Erys gwasanaethau addysg yn anfoddhaol o hyd

39 Arolygodd Estyn wasanaethau addysg y Cyngor ym mis Mai 2011. Rhoddodd yr arolygwyr farn gyffredinol ar berfformiad a'r gallu i wella. Caiff gwasanaethau eu gwerthuso ar raddfa pedwar pwynt: ardderchog, da, digonol ac anfoddhaol. Roedd Estyn o'r farn fod gwasanaethau addysg y Cyngor yn anfoddhaol a bod rhagolygon y Cyngor ar gyfer gwella yn anfoddhaol. O ganlyniad, penderfynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y câi swyddogaethau addysg y Cyngor eu cyflawni gan ddau gomisiynydd addysg a phenderfynodd wedi hynny y caent eu cyflawni gan ddim ond un comisiynydd llawn amser tan 31 Mawrth 2014.

40 Cynhaliodd Estyn arolygiad pellach ym mis Ionawr 2013 a barnodd fod y gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn parhau i fod yn anfoddhaol a bod gallu'r cyngor i wella hefyd yn parhau'n anfoddhaol. Daeth Estyn i'r casgliad fod angen mesurau arbennig ar y Cyngor. Mae'r canfyddiadau manwl i'w gweld yn yr adroddiad sydd ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk.

41 O ganlyniad, penderfynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y câi swyddogaethau addysg y Cyngor eu cyflawni gan Fwrdd Adfer Blaenau Gwent (y Bwrdd). Sefydlwyd y Bwrdd ym mis Ionawr 2014 a'i brif swyddogaeth yw sicrhau y caiff swyddogaethau addysg y Cyngor eu cyflawni i safon ddigonol o leiaf.

42 Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu ôl-arolygiad a bwrdd monitro er mwyn ymdrin ag argymhellion Estyn. Cyflwynwyd cynllun gweithredu ôl-arolygiad y Cyngor i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Sgiliau ym mis Mawrth 2014. Mae'r Cyngor wedi ein hysbysu y bydd hefyd yn ei gyflwyno i'r Weithrediaeth maes o law. Bydd Estyn yn cynnal tri ymweliad monitro yn ystod Haf a Hydref 2014 a Gwanwyn 2015 er mwyn asesu cynnydd y Cyngor wrth weithredu'r argymhellion.

## Dengys dadansoddiad o wybodaeth arall am berfformiad ddarlun cymysg o welliant

**Roedd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili yn perfformio'n dda**

43 Ym mis Mehefin 2013, cynhaliodd Arolygiaeth Prawf EM arolygiad sgrinio ansawdd byr o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid ar y cyd Blaenau Gwent a Chaerffili. Daeth Arolygiaeth Prawf EM i'r casgliad canlynol: Ar y cyfan, cafwyd gennym fod Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili yn perfformio'n dda. Roedd staff y Gwasanaeth yn llawn cymhelliant ac yn sôn am y sefydliad a'u cyfraniad at y gwaith mewn ffordd gadarnhaol. Gwnaed gwelliannau

sylweddol ers ein harolygiad diwethaf yn 2010, yn arbennig o ran y gwaith i ddiogelu plant a diogelu'r cyhoedd. Dylid canolbwyntio ymdrechion yn awr ar sicrhau bod pob asesiad a phob cynllun o ansawdd da. O ystyried ymroddiad y staff a'r rheolwyr, rydym yn rhagweld y gellir dyblygu'r safonau a welwyd yn y rhan fwyaf o achosion ar draws pob darn o waith.

44 Nododd Arolygiaeth Prawf EM fod yr agweddau gorau ar y gwaith a welodd ym Mlaenau Gwent a Chaerffili yn cynnwys y canlynol:

- Y gwelliant sylweddol o ran arfer ers yr arolygiad blaenorol. Er mai'r tîm rheoli fu'n gyfrifol am lywio'r gwelliant hwn, fe'i croesawyd hefyd gan grŵp o staff sy'n ymrwymedig i'w gwaith ac i'r gymuned a wasanaethir ganddynt.
- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr a oedd wedyn yn rhoi sylfaen gadarn i weithio i leihau'r tebygolrwydd y byddent yn aildroseddu.

45 Canfu Arolygiaeth Prawf EM mai'r maes mwyaf arwyddocaol i'w wella oedd yr angen am drefniadau goruchwylio cyson gan reolwyr er mwyn sicrhau ansawdd asesiadau o'r risg o niwed i eraill ac ansawdd cynlluniau i ymdrin ag unigolion sy'n agored i niwed.

46 Gellir gweld yr adroddiad arolygu llawn ar wefan Arolygiaeth Prawf EM: www.justice.gov.uk.

**Roedd perfformiad y Cyngor o ran gweinyddu Budd-dal Tai yn gymysg**

47 Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU ar raglen ddiwygio, a fydd yn diweddu â chynllun fesul cam i gyflwyno Credyd Cynhwysol rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Deddf Diwygio Lles 2012 yw'r newid mwyaf arwyddocaol a wnaed i'r broses o weinyddu a dosbarthu budd-daliadau ers sefydlu'r Wladwriaeth Les ym Mhrydain ar ôl y Rhyfel a chaiff effaith fawr ar lawer o ddinasyddion. Mae'n hanfodol bod cynghorau yn paratoi i ymdrin ag effaith Deddf Diwygio Lles 2012 ac mae'n bwysig y caiff gwasanaethau presennol eu rheoli'n effeithiol ac y caiff perfformiad ei gynnal.

48 Dengys y ffigurau llwyth achosion diweddaraf a ddarparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau hyd at fis Chwefror 2013, yng Nghymru, fod nifer yr unigolion sy'n hawlio Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor yn ystod 2012-13 yn is, gyda gostyngiad cyfartalog o dri y cant ledled Cymru. Fodd bynnag, cynyddodd y llwyth achosion ym Mlaenau Gwent un y cant o 11,020 o hawlwyr ym mis Mai 2012 i 11,100 o hawlwyr ym mis Chwefror 2013, a oedd yn gyson â 2011-12 pan gafwyd hefyd gynnydd o un y cant.

49 Ar gyfartaledd, cymerodd 22 o ddiwrnodau i brosesu ceisiadau newydd ym Mlaenau Gwent yn ystod 2012-13 ac nid oedd hyn wedi newid ers 2010-11. Roedd perfformiad ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 20 o ddiwrnodau yn 2012-13. Gostyngodd yr amser roedd yn ei gymryd ar gyfartaledd i brosesu newidiadau mewn amgylchiadau ym Mlaenau Gwent o saith diwrnod yn

2011-12 i wyth diwrnod yn 2012-13. Roedd perfformiad yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef chwech diwrnod.

50 Er bod cyflymder prosesu yn bwysig, mae nifer o fesurau eraill sy'n helpu i roi darlun llawn o ba mor dda y mae'r Cyngor yn prosesu ceisiadau am fudd-dal tai.

51 Gwellodd perfformiad, i raddau helaeth, fel y'i mesurwyd gan y dangosyddion canlynol:

- Gwellodd canran y ceisiadau newydd nad ymdriniwyd â hwy ar ôl 50 diwrnod o 19 y cant yn 2011-12 i 14 y cant yn 2012-13. Roedd perfformiad yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef pedwar y cant yn 2012-13.

- Gwellodd y Cyngor lefel y gordaliadau a wnaed 'yn ystod y flwyddyn' a adenillwyd oddi ar hawlwyr. Cynyddodd canran y gordaliadau a wnaed 'yn ystod y flwyddyn' a adenillwyd o 80 y cant yn 2011-12 i 88 y cant yn 2012-13. Roedd y perfformiad hwn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 73 y cant yn 2012-13.

- Mae cyfanswm nifer y ceisiadau Budd-dal Tai a gaiff eu hadolygu wedi gostwng o 63 yn 2011-12 i 59 yn 2012-13. Gwellodd perfformiad y Cyngor o 44 diwrnod yn 2011-12 i 32 diwrnod yn 2012-13. Gwellodd canran yr ailystyriaethau yr ymatebwyd iddynt o fewn pedair wythnos o 52 y cant yn 2011-12 i 88 y cant yn 2012-13. Roedd perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru, sef 11 y cant, yn 2012-13.

52 Gostyngodd perfformiad, i raddau helaeth, fel y'i mesurwyd gan y dangosyddion canlynol:

- Bu gostyngiad bach yng nghanran y ceisiadau newydd y penderfynwyd arnynt o fewn 14 diwrnod o 96 y cant yn 2011-12 i 95 y cant yn 2012-13. Roedd hyn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 88 y cant, yn 2012-13.

- Gostyngodd cywirdeb wrth brosesu ceisiadau o 91 y cant yn 2011-12 i 82 y cant yn 2012-13. Roedd perfformiad yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef 94 y cant, yn 2012-13.

- Gostyngodd canran y gordaliadau o 'flynyddoedd blaenorol' a adenillwyd o 41 y cant yn 2011-12 i 39 y cant yn 2012-13. Roedd perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru, sef 32 y cant, yn 2012-13.

- Cynhaliodd y Cyngor fwy o ymchwiliadau twyll yn ystod 2012-13, gan gynyddu o 61 fesul 1,000 o achosion yn 2011-12 i 63 fesul 1,000 o achosion yn 2012-13. Fodd bynnag, gostyngodd nifer y sancsiynau llwyddiannus a gymhwyswyd o 8 fesul 1,000 o achosion yn 2011-12 i 3 fesul 1,000 o achosion yn 2012-13. Roedd y perfformiad hwn yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef 8 fesul 1,000 o achosion yn 2012-13.

- Er bod nifer yr apeliadau wedi lleihau o 50 yn 2011-12 i 28 yn 2012-13, gostyngodd yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu apeliadau hefyd gyda'r Cyngor yn cymryd 40 diwrnod ar gyfartaledd yn 2012-13 o gymharu â 24 diwrnod yn 2011-12. Roedd perfformiad yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef 38 diwrnod, yn 2012-13. Gostyngodd canran yr apeliadau a gyflwynwyd i'r Gwasanaeth Apeliadau o fewn pedair wythnos o 73 y cant yn 2011-12 i 54 y cant yn 2012-13. Roedd perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru, sef 51 y cant, yn 2012-13.

**O fewn y gwasanaethau a adolygwyd gennym, roedd y Cyngor yn darparu gwasanaethau hanfodol gyda llai o arian ond nid oedd arbedion bob amser yn cael eu cyflawni ac nid oedd trefniadau effeithiol ar waith i graffu ar dargedau arbed. O ganlyniad, roedd rhai gwasanaethau yn dod yn gynyddol anghynaliadwy**

53 Yn ystod 2012-13, cynhaliwyd adolygiad gennym ar draws cynghorau Gwent i ganfod pa mor dda roeddent yn ymdopi gyda llai o adnoddau. Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar dri maes gwasanaeth - Iechyd yr Amgylchedd, Tai a Rheoli Gwastraff - er mwyn deall pa mor dda roedd y gwasanaethau unigol hyn yn cynllunio arbedion ac yn eu cyflawni. Yn gyffredinol, cafwyd gennym fod cynghorau yng Ngwent yn wynebu heriau sylweddol er mwyn parhau i ddarparu a gwella gwasanaethau hanfodol mewn amgylchedd cyfnewidiol gyda llai o arian a llai o staff.

54 Mewn perthynas â Blaenau Gwent, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau hanfodol gyda llai o arian ond nid oedd arbedion bob amser yn cael eu cyflawni ac nid oedd trefniadau effeithiol ar waith i graffu ar dargedau arbed. O ganlyniad, roedd rhai gwasanaethau yn dod yn gynyddol anghynaliadwy. Daethom i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol:

- Roedd y Cyngor yn canolbwyntio ar leihau gwariant ond bu'r ymdrech i gyflawni targedau arbed cymeradwy yn gymysg ac nid oedd y broses o gyflawni arbedion na'u heffaith yn destun gwaith craffu a herio effeithiol ac nid oedd dealltwriaeth glir ohonynt.
- Roedd gwariant ar iechyd yr amgylchedd, tai a rheoli gwastraff wedi cynyddu ac er bod perfformiad yn sefydlog ar y cyfan, nid oedd cynaliadwyedd hirdymor dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau yn eglur ac roedd rhai gwasanaethau yn rheoli risgiau sylweddol.
- Roedd boddhad â gwasanaethau'r Cyngor yn uchel ar y cyfan ac eithrio cyflwr y ffyrdd, ond nid oedd y rhan fwyaf o'r trigolion y gwnaethom siarad â hwy yn ymwybodol o gynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.

**Gwnaed gwelliannau i wefan ddwyieithog y Cyngor ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar system Adnoddau Dynol newydd**

55 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

56 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

57 Mae gweithgor mewnol a sefydlwyd i ailddatblygu'r wefan, wedi sicrhau bod 90 y cant o dudalennau gwefan y Cyngor bellach yn ddwyieithog. Bydd y Cyngor yn cyflwyno system rheoli cynnwys newydd yn fuan a fydd yn golygu na fydd yn bosibl cyhoeddi tudalen Saesneg hyd nes y bydd y dudalen Gymraeg gyfatebol yn barod i'w chyhoeddi. Datblygwyd system Adnoddau Dynol newydd ac mae'r Cyngor wrthi'n creu cofnod o'r holl gyflogeion sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn gallu darparu gwasanaethau i aelodau o'r cyhoedd yn eu dewis iaith. Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw datblygu'r system Adnoddau Dynol ymhellach er mwyn gallu cynnig adran recriwtio ddwyieithog ar ei wefan ar gyfer pob swydd.

# Cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant o dan y Mesur yn ystod 2012-13, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a fydd ei drefniadau newydd yn gwella ei allu i wella gwasanaethau a gwerthuso eu perfformiad

## Er bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant o dan y Mesur ar gyfer 2012-13, mae lle i atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach

58 Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei Gynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2013-2014 (yr Adroddiad ar Berfformiad) ar 31 Hydref 2013 yn unol â gofynion statudol. Mae'r Adroddiad ar Berfformiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor. Mae hefyd ar gael ar ffurf copi caled a gall fersiynau mewn fformatau eraill, fel Braille a sain, gael eu darparu ar gais.

59 Mae'r Adroddiad ar Berfformiad yn nodi sut mae'r Cyngor wedi ymateb i argymhelliad statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru a wnaed yn Asesiad Corfforaethol Tachwedd 2011. Mae hefyd yn cynnwys manylion yr argymhellion diweddaraf a wnaeth yn ei lythyr ar 2 Hydref 2013 a'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Penodedig ar 31 Hydref 2013 o dan adran 25 (2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

60 Mae'r Adroddiad ar Berfformiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol yn unol â'r Mesur. Mae hefyd yn cynnwys manylion y ffordd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithredu.

61 Nodwyd nifer o feysydd gennym lle gall y Cyngor wella'r Adroddiad ar Berfformiad ymhellach. Ymhlith y rhain roedd; atgyfnerthu ei drefniadau i gasglu gwybodaeth a fydd yn golygu y gall asesu p'un a yw wedi cyflawni ei amcanion gwella. Gwella ei ddull gwerthuso er mwyn sicrhau bod esboniadau yn glir, yn dryloyw ac yn gytbwys, gan alluogi'r darllenydd i ddeall a yw'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni'r amcanion gwella ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13. Gallai'r Cyngor ddefnyddio sail dystiolaeth ehangach, megis gwybodaeth o adolygiadau cymheiriaid, asesiadau craffu, data meincnodi a boddhad cwsmeriaid, i wella gwaith hunanwerthuso a chyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar gyflawniadau. Gellid gwella'r Adroddiad ar Berfformiad hefyd drwy nodi buddiannau a chanlyniadau bwriadedig prosiectau cydweithredol a phartneriaethau. Lluniodd y Cyngor grynodeb o'r Adroddiad ar Berfformiad er nad oedd yn rhaid iddo wneud hynny, ond gellid ei wella drwy ddarparu gwerthusiad clir o bob amcan gwella a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod 2012-13.

62 Daeth AGGCC i'r casgliad canlynol yn Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012-13: 'Mae adroddiad blynyddol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn cyflwyno golwg clir, cytbwys a chynhwysfawr o'r gwasanaethau a ddarperir. Mae hyn yn cynnwys myfyrio ar gynnydd yn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau i oedolion ac i blant. Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol gyda nodau mesuradwy yn seiliedig

ar gynnydd blaenorol a strategaeth/polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn cydnabod y cyfyngiadau ariannol parhaus ac effaith diwygio lles.'

## Gyda chymorth Cynghorwyr Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn datblygu nifer o drefniadau corfforaethol ond mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a fyddant yn gwella gallu'r Cyngor i werthuso a gwella gwasanaethau

63 Ym mis Hydref 2013, cyhoeddwyd ein Llythyr Asesiad Gwella a gwnaethom ddau argymhelliad statudol i'r Cyngor ymdrin â threfniadau cynllunio ariannol a'r broses o graffu ar benderfyniadau a wneir. Gwnaethom argymell hefyd y dylai'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ddefnyddio ei phwerau o dan Adran 28 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i roi cymorth i'r Cyngor. Nid oeddem o'r farn bod gan y Cyngor y capasiti i nodi'r camau gweithredu roedd eu hangen i ymdrin â'i anawsterau ariannol difrifol a'u rhoi ar waith. Roedd angen darparu cymorth allanol â sgiliau a phrofiad addas er mwyn galluogi'r Cyngor i gymryd y camau gweithredu cyflym a sylweddol angenrheidiol.

64 Darparodd y Gweinidog becyn ffurfiol o gymorth a oedd yn cynnwys tîm o gynghorwyr allanol i weithio ochr yn ochr â'r Cyngor rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Ionawr 2014. Rhoddodd y tîm gymorth, her a chyngor i'r uwch dîm rheoli ac yn benodol, canolbwyntiodd ar rheolaeth gyllidebol yn y tymor byr a chynllunio ariannol tymor hwy; rheoli a gweithredu rhaglenni. Gofynnodd y Gweinidog hefyd i swyddogion Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Cyngor i roi rhaglen ar waith i ymdrin â'r pryderon o ran y trefniadau craffu.

65 Ar ôl cwblhau'r pecyn cymorth gwreiddiol, darparodd y Gweinidog becyn byrdymor arall, a oedd yn llai cynhwysfawr, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2014. Nod y pecyn hwn oedd rhoi cymorth a her i'r Cyngor ddatblygu trefniadau ar gyfer cynllunio prosiectau, llunio rhaglen integredig a datblygu trefniadau rheoli perfformiad a chyflwyno adroddiadau.

66 Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i ddatblygu Rhaglen Trawsffurfio Blaenau Gwent 2013-2017 a bwriedir ei defnyddio fel fframwaith i'r Cyngor roi ei agenda trawsffurfio ar waith. Noda'r Cyngor y bydd y Rhaglen hon yn helpu i sicrhau eglurder a thryloywder wrth gyflawni canlyniadau ac atgyfnerthu atebolrwydd swyddogion ac aelodau. Mae swyddogion yn gweithio ar nifer o drefniadau cysylltiedig ar hyn o bryd, gan gynnwys: fframwaith rheoli prosiectau diwygiedig; fformat newydd ar gyfer cyflwyno adroddiadau cyfunol misol sy'n cynnwys gwybodaeth am reoli perfformiad a rheolaeth ariannol yn ogystal ag adroddiadau ar risgiau a chynnydd prosiectau; hunanwerthusiadau a her gan gymheiriaid; rhoi adnodd olrhain argymhellion rheoleiddwyr ar waith; a gwella hyfforddiant perfformiad. Bwriedir i lawer o'r trefniadau newydd neu ddiwygiedig hyn fod ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf sy'n dechrau ym mis Ebrill 2014.

## Ceir rhai gwendidau o ran cywirdeb y data a gofnodir

67 Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella. Gwnaethom archwilio'r systemau data sy'n cefnogi'r 10 mesur perfformiad a ddefnyddir gan y Cyngor, sy'n cynnwys dau Ddangosydd Strategol Cenedlaethol (DSC) ac wyth mesur perfformiad lleol.

68 Daeth ein hasesiad o sampl o fesurau perfformiad a systemau data gweithredol y Cyngor i'r casgliad bod gwendidau yng nghywirdeb y data a gofnodwyd a diwygiwyd dau o'r 10 o fesurau.

69 Fodd bynnag, roedd gennym amheuon ynghylch cadernid y data cenedlaethol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y ddau Ddangosydd Strategol Cenedlaethol canlynol ac, felly, gwnaethom benderfynu amodi'r dangosyddion hyn yn gyffredinol ar gyfer 2012-13 ar draws pob cyngor:

- SCA/001 - cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd; a
- PLA/006b - nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau ond mae'n rhaid iddo weithredu ar unwaith er mwyn sicrhau cyllideb gyfreithlon a mantoledig ar gyfer 2014-15

70 Yn ei Lythyr Archwilio Blynyddol dyddiedig 31 Hydref 2013, cadarnhaodd yr Archwilydd Penodedig fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau. Cyhoeddwyd barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2012-13, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor ar 25 Medi 2013. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

71 Fel y cyfeirir ato isod ym mharagraff 92, penderfynodd yr Archwilydd Penodedig wneud Argymhelliad Statudol i'r Cyngor o dan adran 25 (2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mewn perthynas â'r sefyllfa ariannol a ragwelwyd ar gyfer y Cyngor yn 2013-14 a thu hwnt.

# Yn 2013-14, cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur, ac mae'n cymryd rhan mewn nifer fawr o brosiectau cydweithredol ond cyfyngedig fu'r cynnydd a wnaed ganddo wrth wella ei drefniadau rheoli gwybodaeth

## Yn 2013-14, cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ond dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

72 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella ym mis Hydref 2013, daethom i'r casgliad fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant ond y dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau. Mae Amcanion Gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol, sef *Blaengynllun Cam 1 Cynllun Gwella Corfforaethol 2013-14,* (y Cynllun), yn bodloni gofynion y Mesur. Mae'r Cynllun yn esbonio pam a sut y dewiswyd y blaenoriaethau a sut mae'r Amcanion Gwella yn adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor ac yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd lle mae angen gwella ansawdd bywyd pobl leol.

73 Nodir y sail dros ddewis pob un o'r amcanion gwella yn glir yn yr adran 'pam ein bod wedi dewis hyn fel blaenoriaeth'. Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth gan gynnwys adborth defnyddwyr gwasanaethau, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, argymhellion rheoleiddwyr, barn partneriaid strategol, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a materion cymunedol. Mae pob Amcan Gwella yn cynnwys cyfres o gamau i'w cyflawni yn 2013-14. Fodd bynnag, cymysg yw ansawdd y cynlluniau gweithredu. Nid yw pob un o'r camau gweithredu yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Amcanion Gwella ac felly ychydig o gyfraniad a wnânt o ran cyflawni'r Amcanion hynny. Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau i'r cysylltiadau rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, y data sylfaenol a'r targedau ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig â hwy, ond mae rhai meysydd yn dal i fod yn anghyson ac nid oes tystiolaeth i'w hategu bob tro.

74 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd yn ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae'r gofyniad i lunio Amcanion Cydraddoldeb yn cyd-fynd yn agos â'r elfen 'Tegwch' y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Cafwyd gennym fod Cynllun Gwella'r Cyngor yn canolbwyntio ar wasanaethau i grwpiau gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Ymhlith yr enghreifftiau mae Amcanion Gwella i gefnogi plant sy'n derbyn gofal, pobl hŷn sy'n agored i niwed a phlant y mae perygl na fyddant mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).

## Er bod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, ni fu'n ddigon cyflym na chadarn ac roedd yn annhebygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2013-14

75 Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi nodi, onid aiff y Cyngor i'r afael ag anghysondebau a gwendidau yn y ffordd y caiff ei redeg, ei bod yn annhebygol y byddai'r Cyngor yn cyflawni unrhyw welliant sylweddol cynaliadwy. Yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ebrill 2013, daethom i'r casgliad er mwyn bod yn llwyddiannus a sicrhau'r gwelliannau a geisir, fod angen arweinyddiaeth effeithiol a threfniadau rheoli a chyflawni cyson ar y Cyngor i sicrhau bod y newidiadau y mae'n dechrau arnynt yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Gyda llai o adnoddau i gefnogi gwelliant, bodolaeth rhai gwasanaethau sy'n methu, perfformiad gwael a chapasiti cyfyngedig, roedd y Cyngor yn wynebu heriau sylweddol wrth gyflawni gwell canlyniadau i'w ddinasyddion.

76 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella ym mis Hydref 2013, daethom i'r casgliad er bod y Cyngor yn gwneud rhywfaint o gynnydd i ymdrin â'r heriau sylweddol a wynebir ganddo, ni fu'r camau gweithredu hyn yn ddigon cyflym nac effeithiol. Gan fod cymaint i'w wneud o hyd, nid yw'r Cyngor yn debygol o wneud y trefniadau angenrheidiol i wella a gwneud newidiadau ar y raddfa a'r cyflymdra angenrheidiol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Daethom i'r farn honno oherwydd:

- mae arweinyddiaeth a'r broses o wneud penderfyniadau yn rhy anghyson o hyd ac nid yw'r Cyngor wedi cyflwyno cynigion i ymdrin â'r pwysau ariannol a ragwelir a pherfformiad anghyson gan wasanaethau yn ddigon cyflym;
- er bod y Cyngor bellach yn cyflwyno cynigion i leihau gwariant, nid yw rhai ohonynt yn gadarn, gallent gael effaith andwyol ar welliant ac nid yw'n sicr a fyddant yn cyflawni'r arbedion mawr sydd eu hangen;
- nid yw aelodau yn cael adroddiadau sy'n cynnwys lefel ac ansawdd y wybodaeth sydd ei hangen i'w helpu i wneud penderfyniadau hyddysg a phriodol ac mae hanes y Cyngor o ran nodi a chyflawni arbedion yn anghyson ac nid yw'n ddigon cadarn;
- er bod y Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol â llai o arian, cynyddodd ei wariant drwy ddefnyddio arian o Gronfa Gyffredinol y Cyngor ac mae cynaliadwyedd hirdymor y dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau yn aneglur;
- nid yw'r Cyngor wedi ymdrin â'r anghysondebau sylweddol o ran perfformiad gwasanaethau yn ddigon cyflym;
- mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio gwelliant; ac
- mae'r aelodau yn dangos awydd am drefniadau effeithiol o ran craffu a gwneud penderfyniadau.

77 O ganlyniad i'r asesiad hwn, gwnaethom ddau argymhelliad statudol a gwnaethom argymell hefyd y dylai'r Gweinidog helpu'r Cyngor.

## Mae'r aelodau yn dangos awydd am drefniadau effeithiol o ran craffu a gwneud penderfyniadau

78 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella ym mis Hydref 2013, nodwyd gennym fod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth ymdrin â rhai o'r problemau diwylliannol a'r gwendidau ymddygiadol sydd wedi amharu ar drefniadau craffu dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelsom welliant ym maes holi a herio gan aelodau a mwy o awydd i ddwyn swyddogion i gyfrif. Er enghraifft, nodwyd bod rhai o'r cyfarfodydd craffu yn cael eu cadeirio'n fwy effeithiol bellach ac mae aelodau'n canolbwyntio ar herio gwasanaethau mewn modd priodol nad yw'n wrthdrawiadol.

79 Fodd bynnag, erys gwendidau hirsefydledig, a nodwyd gennym yn flaenorol, o ran effeithiolrwydd rhai pwyllgorau craffu. Mae'r gwendidau hyn yn cynnwys y ffaith bod ansawdd rhai adroddiadau yn llesteirio gwaith craffu effeithiol ac anallu rhai swyddogion i ymateb yn ddigonol i gwestiynau ac ymholiadau gan aelodau. Ar y pryd, roeddem o'r farn nad oedd rhai swyddogion wedi gwneud y newid sylweddol sydd ei angen i gefnogi prosesau llywodraethu effeithiol ac atebolrwydd priodol.

80 Gallai ansawdd y wybodaeth y mae'n rhaid seilio penderfyniadau pwysig arni fod yn gliriach, gan gyflwyno gwybodaeth allweddol mewn ffordd eglurach a chostio cynigion yn llawn. Er mwyn gwella ansawdd adroddiadau, mae'r Cyngor wedi cael cymorth gan gymheiriaid yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i adolygu dull y Cyngor o lunio cynlluniau ac adroddiadau ariannol.

81 Yn 2012-13, cynhaliwyd astudiaeth Cymru gyfan gennym i ystyried i ba raddau roedd trefniadau herio a chraffu yn gweithredu'n effeithiol ym maes llywodraeth leol. Darparodd yr astudiaeth linell sylfaen i gynghorau asesu a dangos eu hymdrechion i wella craffu yn ystod y pum mlynedd nesaf ac ystyried eu hymdrechion hyd yn hyn. Roedd hefyd yn cynnwys cydweithgaredd amser real a chydweithio, hunanwerthuso a chyfleoedd i gymheiriaid gyfnewid gwybodaeth. Roedd y ffocws ar feithrin dealltwriaeth a chefnogi a datblygu gwelliant parhaus cynaliadwy, nid dim ond ar roi sicrwydd.

82 Nododd y Cyngor mai'r prif feysydd i'w gwella oedd: amgylchedd cyfarfodydd; cynllunio a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd; blaenraglenni gwaith; ymgysylltu â swyddogion gweithredol; rheoli cyfarfodydd; adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu; ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Rhagfyr 2013 ac i'r Cyngor llawn ym mis Mai 2014. Fel rhan o'n gwaith ar gyfer yr asesiad gwella, byddwn yn adolygu cynnydd ar y cynllun gweithredu yn rheolaidd.

## Mae trefniadau'r Cyngor i baratoi ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn gymharol gadarn ond ceir rhai meysydd lle y gellid gwella'r trefniadau hyn

83 Ers 2010-11, bu'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Dylai'r datganiad hwn gynnwys adolygiad o reolaeth fewnol a'r fframwaith llywodraethu ehangach. Yn 2012-13, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaeth wella er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd adolygiadau llywodraethu awdurdodau. Y diben oedd nodi sut y gellir eu gwella i roi sicrwydd eu bod yn ffordd ddibynadwy o hunanwerthuso. Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar nodi pwyntiau dysgu i awdurdodau eu hystyried wrth gynnal adolygiadau o'u Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn y dyfodol. Nod yr astudiaeth oedd ateb y cwestiwn; 'Wrth lunio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, a yw'r Cyngor wedi gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu'n gynhwysfawr ac yn drylwyr?'

84 Cafwyd gennym fod Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn adlewyrchu'r elfennau allweddol a nodwyd o fewn fframwaith CIPFA[7]/SOLACE[8]. Mae gan y Cyngor weithgor ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob adran, ac mae Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydgysylltu'r broses o lunio'r Datganiad. Cafwyd gennym hefyd fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gymharol gadarn a bod holiaduron hunanasesu yn cael eu cwblhau gan uwch swyddogion o bob adran. Fodd bynnag, roedd y broses ar gyfer monitro problemau o fewn adrannau wrth iddynt godi drwy gydol y flwyddyn yn anghyson, yn benodol mewn perthynas â rheoli risg, rheoli prosiectau a rheoli perfformiad. Gellid gwella lefel yr her gan uwch swyddogion a'r tîm rheoli corfforaethol hefyd. Nodwyd nifer o bwyntiau dysgu allweddol gennym i'r Cyngor:

- gwella dealltwriaeth swyddogion ac aelodau o'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- nodi ac asesu effeithiolrwydd yr holl fframweithiau a pholisïau llywodraethu o dan y Rhaglen Adfer Corfforaethol;
- cynnwys egwyddorion llywodraethu da o fewn gweithgareddau beunyddiol adrannau unigol y Cyngor, er enghraifft, monitro'r broses o ddarparu gwasanaethau yn erbyn blaenoriaethau/ targedau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u cyflawni;
- mwy o her i gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan y tîm rheoli corfforaethol, gan felly sicrhau bod y datganiad yn gyson â gwybodaeth a dealltwriaeth y tîm o'r materion ehangach sy'n effeithio ar y Cyngor; a
- gwella'r trefniadau llywodraethu ar gyfer prosiectau cydweithredu/cydweithio a'r risgiau cysylltiedig o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

7 Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
8 Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol

85 Roedd y Cyngor yn ymdrin â'r meysydd hyn fel rhan o'i ymateb i'n Llythyr Asesiad Gwella ym mis Hydref 2013 gyda'r bwriad o wella ei drefniadau i lunio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2013-14.

## Cyfyngedig iawn fu cynnydd y Cyngor wrth roi ein cynigion ar gyfer gwella ei drefniadau rheoli gwybodaeth ar waith ac ni fanteisiodd yn llawn ar y trefniadau cydweithredu â Chyngor Merthyr, a lesteiriwyd gan lywodraethu gwael

86 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol dyddiedig mis Ebrill 2013, nodwyd gennym fod trefniadau'r Cyngor o ran llywodraethu gwybodaeth yn datblygu ond nad oeddent wedi ymsefydlu'n llawn. Roedd y cydweithredu cynyddol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn fuddiol a byddai'n rhoi cyfle i'r Cyngor wneud cynnydd cyflym er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau cyfredol.

87 Gwnaethom nifer o gynigion ar gyfer gwella. Aeth cryn amser heibio cyn i'n hadroddiad gwreiddiol dyddiedig mis Hydref 2012 gael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Aelodau. Felly, ym mis Hydref 2013, gwnaethom adolygu cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r wyth cynnig ar gyfer gwella a ddeilliodd o'n hadolygiad gwreiddiol yn 2012. Roedd yn siomedig nodi, o ganlyniad i ddadflaenoriaethu'r agenda Rheoli Gwybodaeth, mai cyfyngedig iawn fu cynnydd y Cyngor yn erbyn ein cynigion ar gyfer gwella ac na fanteisiodd y Cyngor yn llawn ar y trefniadau cydweithredu gyda Chyngor Merthyr, a lesteiriodd gynnydd drwy lywodraethu gwael.

88 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Dim ond un cyfarfod o'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a drefnwyd gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, ac nid yw hyn yn ddigonol i roi trefniadau llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith. Er y nodwyd llwybrau briffio eraill, nid yw'r rhain yn drefniadau llywodraethu da na chadarn, sy'n peri risg i'r Cyngor.
- Nid y Tîm Rheoli Corfforaethol nac unrhyw uwch grŵp arall o uwch reolwyr nac aelodau a wnaeth y penderfyniad i ddadflaenoriaethu'r agenda Rheoli Gwybodaeth a pheidio â rhoi camau gweithredu ar waith i ymdrin â'r cynigion a wnaed yn ein hadroddiad ym mis Hydref 2012.
- Ni wnaeth y Cyngor ddigon o ymdrech i ddatblygu strategaeth wybodaeth ac o ganlyniad, nid yw wedi datblygu unrhyw gynlluniau i roi'r agenda rheoli gwybodaeth ar waith o fewn y Cyngor.
- Mae'r Cyngor, gan ddefnyddio polisïau a ddatblygwyd gan Gyngor Merthyr, wedi cymeradwyo 20 o bolisïau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth.
- Nid yw'r Cyngor wedi adolygu ei System Rheoli Dogfennau Electronig ac nid oes ganddo'r capasiti na'r ymrwymiad gan reolwyr i roi'r system ar waith na gwireddu holl fanteision ei fuddsoddiad parhaus.

- Ni wnaed unrhyw gynnydd wrth greu cofrestr ganolog o brotocolau rhannu gwybodaeth na sicrhau bod yr holl brotocolau rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio â safon Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. Yn ogystal, ni wnaed unrhyw newidiadau i gynnwys gwefan Deddf Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor.
- Mae datrysiad yn cael ei ddatblygu ar gyfer storfa ddata'r Cyngor oddi ar y safle a fydd, unwaith y caiff ei gwblhau, yn galluogi'r Cyngor i adfer ei wybodaeth am wasanaethau os ceir trychineb.

## Cymerodd y Cyngor ran mewn nifer fawr o brosiectau cydweithredol ac, yn gyffredinol, cafwyd gennym y gellid cynllunio a rheoli prosiectau cydweithredol yn well a bod gwybodaeth am gostau a buddiannau yn golygu ei bod yn anodd asesu gwerth am arian

89 Yn 2013, gwnaethom gynnal adolygiad o drefniadau cydweithredu ar draws pedwar cyngor yng Ngwent, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Nod yr adolygiadau oedd asesu p'un a oedd dulliau cydweithredu'r cynghorau yn gadarn ac yn cyflawni eu nodau.

90 Daethom i'r casgliad fod y Cyngor yn cymryd rhan mewn nifer fawr o brosiectau cydweithredol ac, yn gyffredinol, cafwyd gennym y gellid cynllunio a rheoli prosiectau cydweithredol yn well a bod diffyg gwybodaeth am gostau a buddiannau yn golygu ei bod yn anodd asesu gwerth am arian. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd

- mae'r cynghorau a arolygwyd gennym yn cymryd rhan mewn llawer o brosiectau cydweithredol, ond nifer fach sydd ar waith gan Flaenau Gwent o gymharu â'r cynghorau eraill a arolygwyd gennym;
- gellid cynllunio a rheoli rhai prosiectau yn well drwy nodi'n glir y rhesymeg dros gydweithredu, enwebu swyddog arweiniol a dynodi amserlenni clir ar gyfer y prosiect; ac
- yn gyffredinol, nid oedd gan y prosiectau cydweithredol o fewn y cynghorau a arolygwyd gennym wybodaeth am gostau a buddiannau cydweithredu, sydd wedi'i gwneud hi'n anodd asesu gwerth am arian.

91 Fel rhan o'r adolygiad, gwnaethom ystyried dwy astudiaeth achos hefyd, Cefnogi Pobl a Gwasanaethau Offer Cymunedol Integredig Gwent Gyfan (GWICES) a daethom i'r casgliad canlynol:

- roedd gan brosiect cydweithredol Cefnogi Pobl Gwent gydberthnasau gwaith da a threfniadau llywodraethu datblygol, ond prin oedd cyfranogiad aelodau a phrin oedd y wybodaeth a oedd ar gael am gostau a buddiannau'r rhaglen; ac

- roedd GWICES yn gwneud gwelliannau sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaethau gan arwain at arbedion maint, ond roedd gorwariant sylweddol ac ni werthuswyd gwerth am arian.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ymdrin â'r diffygion a ragwelwyd yn ei gyllideb yn 2013-14 a 2014-15, ond mae'n hanfodol bod y Cyngor bellach yn cyflawni'r arbedion hyn ac yn parhau i ddatblygu ei gynlluniau arbed ar gyfer 2015-16 a thu hwnt er mwyn iddo barhau'n ariannol gynaliadwy

92 Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys adolygiad o wariant 2010 i'r senedd ar 20 Hydref 2010. Roedd hyn yn rhan ganolog o ymateb y llywodraeth glymblaid i'r angen i leihau'r diffyg cenedlaethol, gyda'r bwriad o fantoli arian cyhoeddus. Yr arbedion hyn yw'r lleihad mwyaf mewn gwariant cyhoeddus ers y 1920au ac maent yn dod ar adeg pan fo newidiadau demograffig a phwysau economaidd sy'n gysylltiedig â'r dirwasgiad yn cynyddu'r galw am rai gwasanaethau. Er mwyn cynllunio cyllid yn effeithiol dylai awdurdodau ddadansoddi manylion am dueddiadau ariannol, gwybodaeth feincnodi briodol, senarios posibl a'u heffaith debygol yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliad anodd diweddar i lywodraeth leol yn golygu bod gwaith cynllunio ariannol da yn hanfodol i gynnal cydnerthedd ariannol.

93 Amlygodd Adroddiad Gwella Blynyddol mis Ebrill 2013, er bod systemau rheoli cyllidebol yn parhau i weithio'n effeithiol, bod y diffyg a ragwelwyd ar gyllideb 2012-2013 a gwendidau yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cynnig heriau sylweddol o ran gallu'r Cyngor i gynnal gwasanaethau yn y tymor canolig a'r hirdymor. Ategwyd y farn hon gan ganfyddiadau gwaith adolygu cymheiriaid a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Gorffennaf 2013.

94 Yn dilyn adborth y gwaith adolygu gan gymheiriaid, cyfeiriodd adroddiad y Prif Weithredwr i'r Cyngor ar 2 Awst 2013 at ddwy flaenoriaeth uniongyrchol yr oedd angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt. Un o'r blaenoriaethau oedd i'r Cyngor nodi, asesu risg, darparu a sicrhau arbedion cyllidebol o hyd at £10 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15. Nododd adroddiad y Prif Weithredwr hefyd fod adborth o'r gwaith adolygu gan gymheiriaid yn awgrymu bod angen ymdrin â'r blaenoriaethau er mwyn i Flaenau Gwent oroesi i'r flwyddyn ariannol nesaf ac, yn ei dro, ddarparu rhai o'r sylfeini i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o sail fwy cynaliadwy yn y dyfodol.

95 O ystyried arwyddocâd y sefyllfa ariannol i hyfywedd ariannol yr Awdurdod yn y dyfodol, nododd yr Archwilydd Penodedig yn ei *Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol* a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Medi 2013, ei fod yn ystyried p'un a ddylid gwneud Argymhelliad Statudol i'r Awdurdod (o dan Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004). Ar ôl

ystyried y mater ymhellach, penderfynodd yr Archwilydd Penodedig wneud yr Argymhelliad Statudol ac fe'i cyflwynwyd fel rhan o'r *Llythyr Archwilio Blynyddol* a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 31 Hydref 2013. Roedd yr argymhelliad fel a ganlyn:

'Mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu ar unwaith i nodi a chymeradwyo'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau cyllideb gyfreithlon a mantoledig ar gyfer 2014-15, ac i gytuno ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gynaliadwy a fydd yn galluogi'r Cyngor i weithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo. Wrth lunio cynlluniau cadarn ar gyfer trawsffurfio a newid gwasanaethau, ac wrth lunio barn hyddysg ar sut i gynllunio a darparu ei wasanaethau yn y dyfodol, mae'n rhaid i'r Cyngor asesu'r effaith a gaiff ei benderfyniadau ar ddinasyddion Blaenau Gwent'.

96 Derbyniodd y Cyngor yr argymhelliad a rhoddodd nifer o gamau gweithredu ar waith yn 2013-14 i fynd i'r afael â gorwariant cyllidebol yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad i'r camau gweithredu hyn a chymorth ychwanegol gan Dîm Cymorth y Gweinidog, mae'r Cyngor bellach wedi gwneud cryn gynnydd i ymdrin â'r gorwariant ariannol a ragwelwyd ganddo ar gyfer 2013-14 a 2014-15. Noda'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf sydd ar gael, ar 28 Chwefror 2014, fod y Cyngor yn rhagweld tanwariant o £0.29 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14. Nodir y tanwariant hwn ar ôl cymhwyso'r gronfa wrth gefn benodol o £1.3 miliwn a sefydlwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ar gyfer taliadau diswyddo. Gwnaeth y Cyngor gryn gynnydd hefyd i nodi  a sefydlu cynlluniau manwl er mwyn cyflawni ei darged arbed ar gyfer 2014-15, sef £10 miliwn.

97 Cydnabuwyd y cynnydd uchod yn llythyr Tîm Cymorth y Gweinidog at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth dyddiedig 20 Ionawr 2014, a ddaeth i'r casgliad bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol a chlodwiw a'u bod hwy fel Cynghorwyr o'r farn, gyda phecyn cymorth pellach a fydd yn llawer mwy cyfyngedig na'r pecyn cymorth gwreiddiol, y dylai fod gan y Cyngor y systemau a'r prosesau angenrheidiol i weithredu ac yn wir, i ddod yn esiampl i Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, nododd y byddai hyn yn dibynnu ar Arweinyddiaeth, ar lefel Wleidyddol ac ar lefel Rheolwyr o fewn y Cyngor.

98 Yn ei lythyr diweddaraf at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, dyddiedig 31 Mawrth, cadarnhaodd Tîm Cymorth y Gweinidog unwaith eto fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da gyda'i gynlluniau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol ac iddo ddangos unwaith eto, yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth, y gall wneud penderfyniadau anodd ar ôl dadansoddi opsiynau a goblygiadau'n briodol. Dangosodd adroddiad interim Tîm Cymorth y Gweinidog a gyhoeddwyd ar 01 Ebrill 2014 fod nifer fach o gynlluniau prosiect, gwerth tua £335,000, nad oedd wedi'u cwblhau o hyd neu nad oedd modd eu cwblhau ar 27 Mawrth 2014.

99 Mae'r Cyngor wedi gwneud cryn gynnydd yn ystod y chwe mis diwethaf ac rydym yn cydnabod graddau'r gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y gwaith da a wnaed yn parhau ac mae'n hollbwysig bod y Cyngor nid yn unig yn cyflawni'r arbedion a nodwyd ganddo ar gyfer 2014-15 ond ei fod hefyd yn parhau i ddatblygu'r cynlluniau arbed sydd eu hangen er mwyn iddo barhau'n ariannol sefydlog drwy gydol 2015-16 a thu hwnt. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn agos yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

100 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cynnal adolygiad ehangach o iechyd ariannol pob awdurdod lleol arall yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ei dull o gyllidebu a chyflawni'r arbedion gofynnol, er mwyn rhoi sicrwydd ar eu cydnerthedd ariannol. Yn yr un modd â'n gwaith ym Mlaenau Gwent, bydd y gwaith hwn yn ystyried p'un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog sy'n eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyllidebau 2013-14. Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau ar ddechrau 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

## Nid yw'n sicr p'un a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

101 Er i'r Cyngor ymateb yn gadarnhaol i'r cymorth a ddarparwyd gan y Gweinidog (gweler paragraffau 63 i 66 uchod) a'i fod yn gwneud newidiadau i nifer o'i drefniadau corfforaethol, er bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran ei drefniadau, mae angen iddo nawr gyflawni heb gymorth uniongyrchol Tîm Cymorth y Gweinidog. Awgryma hanes blaenorol y Cyngor nad yw wedi llwyddo i wneud gwelliannau heb gymorth allanol yn y gorffennol. Dim ond ar ôl eu rhoi ar waith yn llawn ac ar ôl iddynt fod yn weithredol am gyfnod o amser y bydd yn bosibl cynnal asesiad llawn o gadernid a chynaliadwyedd trefniadau diwygiedig y Cyngor.

102 Yn Llythyr Asesiad Gwella mis Hydref 2013, gwnaethom ddatgan bod arweinyddiaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau yn rhy anghyson o hyd. Mae'r Cyngor yn wynebu heriau digynsail, yn ariannol ac yn gorfforaethol, a fydd yn profi p'un a all ei gapasiti a'i drefniadau wella ei brosesau rheoli cyllidebol byrdymor, cynllunio ariannol tymor hwy, rheoli rhaglenni a darparu gwasanaethau. Mae angen i arweinwyr y Cyngor weithio fel tîm a bod yn barod i wneud penderfyniadau anodd er mwyn gwella ei drefniadau a gwneud gwelliannau llwyddiannus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn *Adroddiad Gwella Blynyddol* cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Flaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £174.9 miliwn y flwyddyn (2013-14), sy'n cyfateb i tua £2,505 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £40.3 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2012-13, treth gyngor gyfartalog y Cyngor ar gyfer band D oedd £1,463 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 4.3 y cant i £1,526 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae 96.2 y cant o dai Blaenau Gwent yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 42 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 8 Annibynnol
- 2 o'r Blaid Lafur
- 30 o Blaid Lafur Cymru
- Un o'r Blaid Lafur a Chydweithredol
- Un nad yw'n aelod o unrhyw blaid

David Waggett yw Prif Weithredwr y Cyngor

Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol – Liz Majer

Cyfarwyddwr Corfforaethol Strategaeth, Trawsffurfio a Diwylliant – Stephen Gillingham

Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd ac Adfywio – Richard Crook

## Gwybodaeth arall

Aelod y Cynulliad dros Flaenau Gwent yw:

- Alun Davies, Llafur

Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad yw

- Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
- Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru
- Lindsay Whittle, Dwyrain De Cymru
- William Graham, Dwyrain De Cymru

Aelod Seneddol Blaenau Gwent yw:

- Nick Smith, Llafur

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor yn www.blaenau-gwent.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy, Gwent, NP23 6XB

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr David Waggett
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd y Cyngor
Y Ganolfan Ddinesig
Glynebwy
NP23 6XB

Annwyl David,

## Llythyr Archwilio Blynyddol 2013

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 25 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

**Gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael i mi, rwyf wedi penderfynu gwneud Argymhelliad Statudol i'r Cyngor o dan adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004**

Cafodd y materion allweddol a ddeilliodd o'r archwiliad o'r cyfrifon eu cynnwys yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a drafodwyd gyda chi cyn ei gyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Medi 2013. Cyfeiriodd yr adroddiad hwn at eich adroddiad i'r Cyngor ar 2 Awst 2013 a dynnodd sylw at un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor, sef nodi, asesu risg, darparu a sicrhau arbedion o hyd at £10 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15. Nodwyd hefyd fod angen ymdrin â'r flaenoriaeth hon er mwyn i Blaenau Gwent oroesi i'r flwyddyn ariannol nesaf ac, yn ei dro, ddarparu rhai o'r sylfeini i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o sail fwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol nad yw'r Cyngor wedi pennu, datblygu na chytuno ar y camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r arbedion gofynnol eto. Nodaf hefyd fod y Gweinidog Cyllid wedi cyhoeddi gostyngiad cyffredinol o 5.81% mewn termau real yn y dyraniad gwariant i lywodraeth leol, pan gyflwynodd ei Chyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Hydref 2013. Noda ffigurau Setliad Llywodraeth Leol drafft Cymru ar gyfer 2014-15 y bydd y setliad Cyllid Allanol Cronnol amodol ar gyfer Blaenau Gwent yn lleihau o £117.336 miliwn yn 2013-14 i £112.834 miliwn yn 2014-15, sef gostyngiad o tua 3.8% mewn termau arian parod.

Ar ôl ystyried y mater hwn yn ofalus ac yng nghyd-destun yr heriau ariannol hynod anodd sy'n wynebu'r Cyngor, rwyf wedi penderfynu gwneud Argymhelliad yn unol ag adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf).

Mae fy Argymhelliad fel a ganlyn:

**Mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu ar unwaith i nodi a chymeradwyo'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau cyllideb gyfreithlon a mantoledig ar gyfer 2014-15, a chytuno ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gynaliadwy a fydd yn galluogi'r Cyngor i weithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo. Wrth lunio cynlluniau cadarn ar gyfer trawsffurfio a newid gwasanaethau, ac wrth lunio barn hyddysg ar sut i gynllunio a darparu ei wasanaethau yn y dyfodol, mae'n rhaid i'r Cyngor asesu'r effaith a gaiff ei benderfyniadau ar ddinasyddion Blaenau Gwent.**

Yn unol ag adrannau 25 a 26 o'r Ddeddf, mae bellach yn ofynnol i'r Cyngor ystyried fy Argymhelliad mewn cyfarfod o fewn mis i ddyddiad y llythyr hwn.

Yn benodol, ac yn unol ag adran 26(5) o'r Ddeddf, yn ystod y cyfarfod hwnnw, dylai'r Cyngor benderfynu ar y canlynol:

1 P'un a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd unrhyw gamau gweithredu;

2 P'un a ddylid derbyn yr Argymhelliad a wnaed; a

3 Pha gamau gweithredu, os o gwbl, y dylid eu cymryd mewn ymateb i'r Argymhelliad.

Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod, dylid fy hysbysu o'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor a chyflwyno hysbysiad i mi yn crynhoi'r penderfyniadau y bydd yn rhaid eu cyhoeddi, ar ôl i mi eu cymeradwyo, mewn papur newydd lleol yn ardal y Cyngor, yn ddarostyngedig i'r eithriadau mewn perthynas â materion cyfrinachol a nodir yn adran 26(5) o'r Ddeddf. Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi'r argymhelliad a'i benderfyniadau mewn perthynas â'r argymhelliad hwnnw.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Nodaf fod Llythyr Asesiad Gwella Archwilydd Cyffredinol Cymru dyddiedig 2il Hydref 2013 hefyd yn cynnwys dau argymhelliad statudol ar gyfer gwella i ymdrin â'r gwendidau a nodwyd o ran trefniadau cynllunio ariannol a chraffu'r Cyngor. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a minnau yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran ymdrin â'n priod argymhellion statudol ac yn cyflwyno adroddiadau ar y cynnydd hwnnw.

Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd y dylai'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ddefnyddio ei phwerau o dan Adran 28 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) i roi cymorth i'r Cyngor i ymdrin â'i anawsterau ariannol difrifol ac i'w alluogi i gymryd y camau di-oed a sylweddol y mae bellach eu hangen. Rwyf yn ymwybodol bod y Gweinidog ers hynny wedi gweithredu'n unol â'r argymhelliad hwnnw.

Cyhoeddais fy nhystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 25 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir,

**Mike Usher**

Cyfarwyddwr Grŵp
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad y Cyngor

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo.  Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei *Flaengynllun Cam 1 Cynllun Gwella Corfforaethol 2013/14* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.blaenau-gwent.gov.uk.

Maent fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella 2012-2013 | Amcanion Gwella 2013-2014 |
|---|---|
| **Sicrhau'r lefelau dysgu a chyflawni uchaf posibl ar gyfer plant a phobl ifanc**<br>• Mae plant y mae angen iddynt dderbyn gofal yn cael y gofal hwnnw gan ofalwyr maeth lleol sy'n gallu rhoi lleoliadau sefydlog.<br>• Gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion ym mhob ysgol ym Mlaenau Gwent.<br>• Gwneud ymyriadau ym mlwyddyn 11 sy'n helpu i leihau'r lefelau a gofnodir o bobl ifanc nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET). | **Sicrhau'r lefelau dysgu a chyflawni uchaf posibl ar gyfer plant a phobl ifanc**<br>• Mae plant y mae angen iddynt dderbyn gofal yn cael y gofal hwnnw gan ofalwyr maeth lleol sy'n gallu rhoi lleoliadau sefydlog.<br>• Gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion ym mhob ysgol ym Mlaenau Gwent.<br>• Gwneud ymyriadau ym mlwyddyn 11 sy'n helpu i leihau'r lefelau a gofnodir o bobl ifanc nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET). |
| **Galluogi pobl a chymunedau i'w helpu eu hunain**<br>• Caiff y bobl hynny sy'n agored i niwed ac y mae angen cymorth gan wasanaethau cymdeithasol arnynt eu galluogi i fyw bywydau annibynnol a bodlon, ac aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl.<br>• Cynyddu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth i ddinasyddion Blaenau Gwent drwy roi cymorth uniongyrchol i fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.<br>• Gwella'r ffordd rydym yn cydweithio â chwsmeriaid a gwasanaethau i ddatblygu sianelau mynediad (at wasanaethau'r Cyngor). | **Galluogi pobl a chymunedau i'w helpu eu hunain**<br>• Caiff y bobl hynny sy'n agored i niwed ac y mae angen cymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol arnynt eu galluogi i fyw bywydau annibynnol a bodlon, ac aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl.<br>• Cynyddu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth i ddinasyddion Blaenau Gwent drwy roi cymorth uniongyrchol i fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.<br>• Gwella'r ffordd rydym yn cydweithio â chwsmeriaid a gwasanaethau i ddatblygu sianelau mynediad (at wasanaethau'r Cyngor). |

| Amcanion Gwella 2012-2013 | Amcanion Gwella 2013-2014 |
|---|---|
| **Mae'r amgylchedd byw yn llewyrchus ac yn atyniadol**<br>• Gan weithio gyda'n gilydd byddwn yn dod yn gymdeithas sy'n ailgylchu llawer ac yn gwastraffu fawr ddim.<br>• Cynnig amgylchedd glân a dymunol i'w fwynhau ac ymfalchïo ynddo drwy wrando ar ein dinasyddion a'n hymwelwyr a hyrwyddo'r hyn a wnawn.<br>• Cynnal a gwella'r rhwydwaith priffyrdd er mwyn cyfrannu at seilwaith trafnidiaeth diogel ac effeithiol.<br>• Mae Canol Trefi yn fwy llewyrchus, atyniadol a hyfyw o ganlyniad i waith adfywio ffisegol a rheoli canol trefi sydd o fudd i siopwyr a busnesau. | **Mae'r amgylchedd byw yn llewyrchus ac yn atyniadol**<br>• Gan weithio gyda'n gilydd byddwn yn dod yn gymdeithas sy'n ailgylchu llawer ac yn gwastraffu fawr ddim.<br>• Cynnig amgylchedd glân a dymunol i'w fwynhau ac ymfalchïo ynddo drwy wrando ar ein dinasyddion a'n hymwelwyr a hyrwyddo'r hyn a wnawn.<br>• Cynnal a gwella'r rhwydwaith priffyrdd er mwyn cyfrannu at seilwaith trafnidiaeth diogel ac effeithiol.<br>• Mae Canol Trefi yn fwy llewyrchus, atyniadol a hyfyw o ganlyniad i waith adfywio ffisegol a rheoli canol trefi sydd o fudd i siopwyr a busnesau. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Gellir gweld hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-13, *Cynllun Gwella Corfforaethol 2013/14*, ar wefan y Cyngor yn www.blaenau-gwent.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk